# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Cofnodion (HWLG(3)-23-09)

**Dyddiad: Dydd Mercher 4 Tachwedd 2009**
**Amser: 10.30 – 12.30pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Darren Millar, Gorllewin Clwyd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Andrew R T Davies, Canol De Cymru
Irene James, Islwyn
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe

### Yn bresennol

Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Paul Williams, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Simon Dean, Cyfarwyddwr, Strategaeth a Chynllunio, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Staff y Cynulliad

Claire Morris, Clerc Pwyllgor
Abigail Phillips, Dirprwy Glerc Pwyllgor
Carolyn Eason, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Stephen George, Gwasanaeth y Pwyllgorau

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r pwyllgor.

Croesawodd y Cadeirydd Claire Morris i'r pwyllgor fel y Clerc newydd.

Cafwyd ymddiheuriad gan Helen Mary Jones.  Nid oedd dirprwy yn bresennol.

### Eitem 2: Ymchwiliad i Wasanaethau Strôc: tystiolaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Papur HWLG(3)-23-09-papur1

2.1 Bu'r Gweinidog yn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd**

Byddai'r Gweinidog yn darparu papur gwybodaeth i'r Pwyllgor am dargedau deallus.

Byddai'r Gweinidog yn darparu nodyn i'r Pwyllgor am ddefnyddio'r buddsoddiad o £2.5miliwn mewn Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer gwasanaethau strôc.

Byddai'r Gweinidog yn darparu nodyn i'r Pwyllgor am waith a wneir gyda Phrifysgol Caeredin ar brotocolau llwybr carlam ar gyfer thrombolysis.

### Eitem 3: Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – sesiwn graffu gyffredinol

Papur HWLG(3)-23-09-papur 2

3.1 Bu'r Gweinidog yn ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd**

Byddai'r Gweinidog yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn fuan am adleoli uwch staff yn dilyn ailstrwythuro'r Byrddau Iechyd Lleol yn ddiweddar.

Byddai'r Gweinidog yn darparu nodyn i'r Pwyllgor yn nodi'r amserlen ar gyfer ad-drefnu niwro-lawfeddygaeth yn Ne a Gogledd Cymru.

Byddai'r Gweinidog yn darparu nodyn yn rhoi manylion am effaith ddisgwyliedig adleoli niwro-lawfeddygaeth o Abertawe i Ysbyty Athrofaol Cymru ar brofiad cleifion.

Byddai'r Gweinidog yn darparu papur i'r Pwyllgor yn amlinellu ei chynlluniau ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn ystad y GIG ar gyfer y dyfodol.

Byddai'r Gweinidog yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganolfannau lles a chanolfannau fferyllol galw heibio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn fuan.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Tachwedd 2009**